# WILLIAMS, MORGAN (c. 1750 - 1830), clerigwr

**Enw:** Morgan Williams
**Dyddiad geni:** c. 1750
**Dyddiad marw:** 1830
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Rhiannon Francis Roberts

Awdur *Collectanea: neu Gasgliadau o Flodeuog-Waith yr Awduron Brytanaidd ... Yn Ddau Lyfr* (Caerfyrddin, 1820, 1823). Dichon mai ef yw'r ' Morgan Williams of Penderin ' a ordeiniwyd yn ddiacon 14 Awst 1774 ac yn offeiriad 6 Awst 1775; os felly cafodd guradiaeth Aberedw, sir Faesyfed, yn 1775, a churadiaeth y Faenor a Thaf-fechan, sir Frycheiniog, yn 1788. Fel curad Bayvil, Sir Benfro, yr adwaenir ef orau; yr oedd hefyd yn gurad Eglwyswrw yn yr un sir. Bu farw yn y Quarry gerllaw Eglwyswrw yn 80 oed, a chladdwyd ef yn y plwyf hwnnw 14 Mehefin 1830.

## Awdur

**Rhiannon Francis Roberts**, (1923 - 1990)

## Ffynonellau

*Seren Gomer*, 1830, 256

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20748861

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu